PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR FWRIAD COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD I BENODI PRIF GWNSTABL AR GYFER HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd (y Panel) a gynhwysir yn Adrannau 8, Rhan 1, Paragraff 4(3) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Penodiad

Hysbyswyd y Panel Heddlu a Throsedd o fwriad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i benodi Mr. Carl Foulkes fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar 29 Awst 2018.

Cynhaliodd y Panel wrandawiad cadarnhau cyhoeddus i adolygu'r bwriad i benodi ar 10 Medi 2018 yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy.

Roedd aelodau canlynol y Panel yn bresennol:

Pat Astbury (Aelod Cyfetholedig Annibynnol) - Is-gadeirydd yn Cadeirio
Y Cynghorydd Chris Bithell
Y Cynghorydd Dana Davies
Y Cynghorydd Alan Hunter
Y Cynghorydd Hugh Irving
Y Cynghorydd Eric Jones
Y Cynghorydd Neville Phillips
Y Cynghorydd Dylan Rees
John Williams (Aelod Cyfetholedig Annibynnol)
Y Cynghorydd Nigel Williams

Amlinellodd y Comisiynydd y rhesymau dros ei benodiad arfaethedig a pham y dewiswyd yr ymgeisydd i'w ystyried gan y Panel.

Cyflwynodd Aelod Annibynnol y Panel Penodiadau (Gill Lewis) ei hadroddiad a roddodd asesiad ar y graddau yr oedd y broses benodi yng Ngogledd Cymru wedi ei

chynnal yn deg, agored ac ar sail teilyngdod. Cadarnhaodd yr Aelod Annibynnol fod y broses o ddewis yr ymgeisydd a ffafriwyd fel Prif Gwnstabl Gogledd Cymru yn cwrdd ag egwyddorion o degwch a bod yn agored ac roedd yn seiliedig ar deilyngdod.

Cwestiynodd aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd Mr. Foulkes mewn perthynas â'i benodiad arfaethedig ac yna cytunwyd i eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod i ystyried ei adroddiad a'i ganfyddiadau.

Ystyriodd y Panel ymatebion yr ymgeisydd i'w cwestiynau a gwybodaeth arall a gyflenwyd gan y Panel yn unol â gofynion Atodlen 8 y Ddeddf a chytunwyd yn unfrydol y dylid penodi Mr. Carl Foulkes yn Brif Gwnstabl ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

Estynnodd y Panel eu diolch i'r Aelod Annibynnol am ei hadroddiad manwl, a oedd yn sicrhau Aelodau'r Panel fod y broses benodi wedi ei chwblhau mewn modd teg ac agored, ac yn seiliedig ar deilyngdod.

Estynnodd y Panel eu diolch i'r Comisiynydd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am y ffordd drylwyr y cynhaliwyd y broses recriwtio a dewis.

Gwahoddodd y Panel Mr. Foulkes i gyfarfod o'r Panel yn y dyfodol i ddarparu diweddariad ar ei gweledigaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

ARGYMHELLION

(a) Cadarnhau penodiad Mr. Carl Foulkes fel Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar y telerau ac amodau a amlinellir yn adroddiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

(b) Dylai Panel yr Heddlu a Throsedd gydnabod fod y broses benodi wedi ei chynnal yn unol ag egwyddorion tegwch, bod yn agored a theilyngdod.

10 Medi 2018